OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1802

# Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005**

**6.** Yn rheoliad 5—

(a) yn y pennawd yn lle "Blaenoriaeth i fabwysiadau cyn 1976" rhodder "Ceisiadau y caniateir eu derbyn";

(b) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) caiff asiantaeth gyfryngol dderbyn cais—

(a) oddi wrth berson mabwysiedig am gynhorthwy i gael gwybodaeth am fabwysiad y person hwnnw ac i gysylltu â pherthynas i'r person hwnnw;

(b) oddi wrth berthynas i berson mabwysiedig am gynhorthwy i gysylltu—

(i) â'r person mabwysiedig; neu

(ii) â pherson sydd â pherthynas ragnodedig â'r person mabwysiedig; neu

(c) oddi wrth berson sydd â pherthynas ragnodedig â'r person mabwysiedig am gynhorthwy i gysylltu â perthynas i berson mabwysiedig.";

(c) hepgorer paragraff (2);

(d) ym mharagraff (3) ar ôl "paragraff (1)" hepgorer "a (2)".